(HCC 1089)

**Cofnodion o Eitemau 2 a 3 ar agenda cyfarfod diweddaru Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9.30am drwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 8 Medi 2022**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Cath Smith (Cadeirydd)<br>Melody Chapman, Gareth Wynn Davies,<br>John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Prys Morgan,<br>Emlyn Roberts a Claire Williams |
| **Trwy Wahoddiad:** | Maria Richards (Llywodraeth Cymru) |
| **Y Weithrediaeth yn bresennol:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitem 2<br>Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)<br>John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau)<br>Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu) |

1. **Ymddiheuriadau**

Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

**Rhan ffurfiol y cyfarfod**

2. **I ystyried Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2023 / 2024 (Atodiad 1)**

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafwyd crynodeb gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Paratowyd y papur a ddiweddarwyd yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ar 7 Gorffennaf 2022 pan gytunodd y Bwrdd bod cynnydd yng nghyfradd Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2023 – 2024 yn angenrheidiol oherwydd y rhesymau a ganlyn:

- roedd y gyfradd chwyddiant oddi ar y cynnydd diwethaf yng nghyfradd yr Ardoll yn 2011 yn erydu incwm Ardoll HCC yn sylweddol; sy'n golygu llai o arian mewn gwirionedd i gefnogi'r diwydiant
- yn dilyn Brexit a'r pandemig Covid-19, addasu i gytundebau masnach newydd ac ati, roedd y diwydiant wedi wynebu ansicrwydd a nifer o heriau a oedd yn dal i gael effaith arno. Roedd yr argyfwng costau byw presennol wedi ychwanegu at hyn
- yn ogystal â'r heriau a nodwyd uchod, roedd y costau sefydlog sydd yn ganran o'r refeniw hefyd wedi cynyddu
- byddai gostyngiad parhaus mewn incwm o ganlyniad i erydiad chwyddiant yn rhoi pwysau pellach ar HCC, gan arwain at gyfyngu ar weithgareddau, o bosibl, yn y dyfodol.

Yn dilyn sylwadau'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf 2022, cynigiodd y Swyddog Gweithredol yr opsiynau canlynol i'r Bwrdd eu hystyried:

Mae'r papur hwn yn amlinellu tri dewis ar gyfer cynyddu'r gyfradd ardoll, fel a ganlyn:

**Dewis 1:** Y cynnydd yn yr ardoll i adlewyrchu cyfradd chwyddiant oddi ar 2011:
(a) Naill ai cynnydd untro yn yr ardoll yn Ebr-23; neu
(b) Tri chynnydd ar wahân yn Ebr-23, Ebr-24 ac Ebr-25.

**Dewis 2:** Cyflwyno system ar gyfer newid cyfraddau ardoll yn flynyddol yn unol â chyfraddau chwyddiant, o Ebr-23 ymlaen.

**Dewis 3:** Cynnydd untro yn yr ardoll yn Ebr-23 **yn ogystal â** chyflwyno system lle byddai cyfraddau ardoll blynyddol yn cydredeg â chyfraddau chwyddiant.

Cytunodd y Bwrdd y byddai negeseuon a chyfathrebu ynghylch y mater hwn yn allweddol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Bwrdd, unwaith y byddai wedi cytuno ar ddewis a'i anfon at y Gweinidog i'w ystyried, yn canolbwyntio ar drefniadau ar gyfer ymgynghori â'r diwydiant a chynllun cyfathrebu.

Rhoddwyd cyfle i'r Bwrdd roi adborth ar y dewisiadau. Yn dilyn trafodaeth fanwl ac ystyried sylwadau pawb a oedd yn bresennol, cytunodd y Bwrdd yn unfrydol o blaid Dewis 2 a welir yn Atodiad 1:

**Cyflwyno system ar gyfer newid cyfraddau ardoll yn flynyddol yn unol â chyfraddau chwyddiant, o Ebr-23 ymlaen**

Mae **Dewis 2** yn argymell cael cyfraddau'r Ardoll i gyd-redeg â chwyddiant, gan ddefnyddio traciwr, i wneud yn siŵr fod incwm o'r ardoll yn cael ei gynnal mewn termau real. Argymhellir bod y cyfraddau Ardoll bob blwyddyn ariannol yn adlewyrchu'r chwyddiant blynyddol yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol, yn unol âr hyn a fesurwyd gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPIH). Byddai'r system hon yn cael ei ddefnyddio i bennu cyfraddau Ardoll o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Rhoddwyd enghraifft: pe bai chwyddiant blynyddol CPIH yn 2022 yn 7 y cant, byddai cyfraddau'r Ardoll ar gyfer 2023 / 2024 yn cynyddu 7 y cant. Byddai cynnydd yn y cyfraddau yn 2024 / 2025 ac ymlaen yn cael eu pennu gan gyfradd chwyddiant flynyddol y CPIH yn y flwyddyn galendr flaenorol. Byddai union gyfradd y chwyddiant ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn hysbys ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Byddai cysylltu cyfraddau'r Ardoll â chwyddiant bob blwyddyn yn sicrhau y byddai incwm yr Ardoll yn cael ei gynnal yn y dyfodol ar lefelau lle nad yw'r gwariant yn cael ei gyfaddawdu – a byddai hynny'n diogelu'r diwydiant at y dyfodol. Yn ogystal, byddai system o'r fath yn osgoi cynnydd untro yn y cyfraddau yn y dyfodol.

Byddai'r cyfraddau Ardoll arfaethedig ar gyfer 2023 / 2024 ymhell o fewn y cyfraddau uchaf a ganiateir gan Orchymyn Mesur 2010 (Gwelliant) y Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2011, ac ni fyddai angen newid y terfynau am flynyddoedd lawer.

**Y camau nesaf:**

Y Prif Weithredwr i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch paratoi argymhelliad i'r Gweinidog. Byddai’r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru yn ei gyfarfod ar 6 Hydref 2022.

**Gweithredu:** **Prif Weithredwr**

3. **Derbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 8 Medi 2022**

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad llafar byr ar y meysydd allweddol a drafodwyd yn y cyfarfod uchod. Cafwyd datganiad o fudd ganddo ynghylch y trafodaethau ar Sioe Frenhinol Cymru 2022 a Ffair Aeaf 2022.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**